**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

06 Ionawr 2021

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, fod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) wedi cwrdd mewn cyfarfod eithriadol yn dilyn y cytundeb a wnaed rhwng Llywodraeth y DU a'r UE ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ddydd Mawrth 29 Rhagfyr. Ymddiheuraf fod y llythyr hwn yn cael ei anfon yn ddiweddarach, ond oherwydd natur frys y cyfarfod ac yn digwydd yn ystod y gwyliau, nid oedd yn bosibl hysbysu'r Pwyllgor ymlaen llaw.

Yn y cyfarfod trafodwyd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, parodrwydd, a gweithredu'r cytundeb, gan gynnwys y Bil Perthynas yn y Dyfodol. Mae fy Natganiad Ysgrifenedig llawn ar y cyfarfod ar gael yma:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyd-bwyllgor-y-gweinidogion-negodiadaur-ue-6

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd Counsel General and Minister for European Transition**